OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 87

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## RHAN 6

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

### PENNOD 5

Grantiau ar gyfer dibynyddion

**59.** Yn rheoliad 77—

(a) ym mharagraff (1), yn lle—

(i) "£6,159" rhodder "£6,272";

(ii) "£8,473" rhodder "£8,629";

(iii) "£9,632" rhodder "£9,809";

(iv) "£10,797" rhodder "£10,996";

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Os yw cwrs presennol y myfyriwr cymwys yn gwrs rhan-amser, swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy yw'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (a)(ii) neu (d)(ii) o Gam 4 o baragraff (1) wedi ei luosi ag—

(a) 25%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 25% o leiaf ond yn llai na 30%;

(b) 30%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 30% o leiaf ond yn llai na 40%;

(c) 40%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 40% o leiaf ond yn llai na 50%;

(d) 50%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 50% o leiaf ond yn llai na 60%;

(e) 60%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 60% o leiaf ond yn llai na 75%;

(f) 75%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 75% neu'n fwy."